------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 8 Hydref 2020

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Martha Howells**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDGCh@senedd.cymru

**Cofrestru cyn y cyfarfod**

(09.00 - 09.30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

## 2 COVID-19: Tystiolaeth ar effaith y pandemig ar y Gymraeg

(09.30-10.30) (Tudalennau 1 - 28)

Eluned Morgan AS, Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol

Bethan Webb, Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran y Gymraeg

Jeremy Evas, Pennaeth Prosiect 2050

## 3 Papurau i'w nodi

### 3.1 Llythyr oddi wrth Llyfrgell Genedlaethol Cymru

(Tudalennau 29 - 30)

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

## 5 Ôl-drafodaeth breifat

(10.30 - 11.00)

Senedd Cymru
Welsh Parliament

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**PAPUR TYSTIOLAETH YSGRIFENEDIG I'R PWYLLGOR DIWYLLIANT, Y GYMRAEG A CHYFATHREBU**

**Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol**

---

## Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn darparu tystiolaeth ar gyfer y Pwyllgor cyn imi fynychu cyfarfod 8 Hydref 2020. Roedd y gwahoddiad yn gofyn am wybodaeth ar y canlynol:

1. Ein strategaeth ar gyfer y Gymraeg (*Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr*)
2. Effaith Covid-19, a'r ymateb iddo, ar y Gymraeg
3. Cyllid ar gyfer y Gymraeg

Mae'r ymateb isod yn canolbwyntio ar bob un o'r rhain yn eu tro.

## 1. Ein strategaeth ar gyfer y Gymraeg (*Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr*)

Cafodd *Cymraeg 2050* ei lansio ym mis Gorffennaf 2017 ynghyd â Rhaglen Waith ar gyfer 2017-2021. Mae'r polisi ar gyfer y Gymraeg yn un hirdymor. Mae *Symud Cymru Ymlaen 2016-2021,* y Rhaglen Lywodraethu, yn cynnwys datblygu a gweithredu polisi'r Gymraeg yn unol ag amcanion agenda Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae ein strategaeth yn nodi'r camau y mae'n rhaid inni eu cymryd i gyrraedd ein dau brif darged erbyn 2050, sef:

- cyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg[1]; a
- dyblu'r defnydd a wneir o'r Gymraeg bob dydd[2].

Mae'r strategaeth wedi dal dychymyg y cyhoedd – mae gennym weledigaeth glir sydd wedi'i derbyn a'i chroesawu ar raddfa eang yng Nghymru a thu hwnt.

Fel yn achos meysydd polisi eraill, mae'r pandemig wedi effeithio ar Raglen Waith *Cymraeg 2050* ar gyfer 2017-21. Mae'r ansicrwydd o ran Brexit hefyd yn her wirioneddol i bolisi'r Gymraeg. **Er bod y cyd-destun yr ydym yn gweithio ynddo wedi newid yn ddramatig ers dyfodiad *Cymraeg 2050*, nid yw ein blaenoriaethau strategol wedi newid.** Fodd bynnag, efallai y bydd angen inni newid ac addasu'r rhaglen er mwyn ymateb i'r heriau newydd hyn.

O dan dair thema *Cymraeg 2050*, rwy'n cynnwys crynodeb byr o rywfaint o'r gwaith newydd sydd wedi'i wneud ers 2017:

Thema 1: Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg

- Byddaf yn cyhoeddi polisi ar **Drosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd** cyn y Nadolig nawr bod y broses ymgynghori ffurfiol wedi dod i ben.
- Rydym wedi sefydlu rhaglen benodol gyda **Mudiad Meithrin** sy'n canolbwyntio ar sefydlu darpariaeth newydd drwy'r Gymraeg ar gyfer y blynyddoedd cynnar mewn rhannau o Gymru lle ceir diffyg gwasanaethau o'r fath ar hyn o bryd. Drwy'r gwaith hwn, ers 2018, mae 21 o **Gylchoedd Meithrin** newydd wedi'u sefydlu a 21 o **Gylchoedd Ti a Fi** newydd. Mae hyn yn golygu y gall cannoedd yn rhagor o blant gymryd y cam cyntaf tuag at addysg Gymraeg bob blwyddyn. Yn ôl data Mudiad Meithrin, yn 2018-19 aeth bron i 90% o blant ymlaen i addysg Gymraeg wrth adael Cylchoedd Meithrin – y gyfran uchaf ers dechrau casglu'r data hwn.
- Wrth ganolbwyntio ar ehangu'r **ddarpariaeth addysg Gymraeg a dwyieithog** a sut y caiff y Gymraeg ei chyflwyno mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, rydym wedi:
    - Sicrhau £46m drwy Grant cyfalaf cyfrwng Cymraeg a Gofal plant, sydd wedi arwain at 46 o brosiectau ar draws 20 awdurdod lleol. Bydd hyn yn

[1] Yng Nghyfrifiad 2011, dywedodd 562,000 o bobl eu bod yn gallu siarad Cymraeg.
[2] Y targed yw: cynyddu'r ganran o'r boblogaeth sy'n siarad Cymraeg bob dydd, ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg yn unig, o 10% (yn 2013-15) i 20% erbyn 2050.

creu **2,818 lle newydd** mewn ysgolion a lleoliadau gofal plant cyfrwng Cymraeg.
  - Gwneud **rheoliadau** newydd ar gyfer Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) ym mis Ionawr 2020[3].
  - Byddwn yn ymgynghori ar drefniadau anstatudol newydd ar gyfer **dynodi ysgolion** yn ôl eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg ym mis Hydref 2020.
  - Ers mis Medi 2019, mae **rhaglenni AGA** (Addysg Gychwynnol Athrawon) yn darparu **o leiaf 25 o awr o hyfforddiant iaith Gymraeg** i hyfforddeion fel rhan o'r cwrs TAR (Tystysgrif Addysg i Raddedigion) yn unol â fframwaith sgiliau iaith Gymraeg cenedlaethol. Mae'r fframwaith sgiliau iaith hefyd yn rhan o **lwybr datblygu iaith gydol gyrfa** i bob ymarferydd, yn unol â'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth.
  - Ni chaiff partneriaethau AGA eu capio o ran recriwtio i gyrsiau, ac eithrio Addysg Gorfforol, a bydd gofyn iddynt weithio i **gynyddu nifer y myfyrwyr sy'n cael eu recriwtio i gyrsiau cyfrwng-Cymraeg i 30%** o'r holl fyfyrwyr a dderbynnir ar gyrsiau o fis Medi 2020.
- Yn 2018, ehangwyd cylch gwaith y **Coleg Cymraeg Cenedlaethol** i gynnwys datblygu addysg ôl-16 cyfrwng Cymraeg a hyfforddiant yn y gweithle drwy'r Gymraeg.
- Mae'r **Urdd** yn darparu **Prentisiaethau** Lefel 2 a Lefel 3 mewn Chwaraeon ac Arweinyddiaeth. Ers 2017/18, hyd at ddiwedd Mawrth 2020, roedd 102 o brentisiaid wedi cwblhau eu prentisiaethau Chwaraeon drwy'r Gymraeg (25 ar Lefel 3 a 77 ar Lefel 2). Mae 70 yn dal i ddilyn prentisiaeth – 32 yn gweithio i'r Urdd, a 28 yn cael eu cyflogi gan bartneriaid allanol (ysgolion cynradd yn Ardal Tasglu'r Cymoedd yn bennaf, a nifer fach ar Ynys Môn a Gwynedd).
- Rydym wedi cyllido a mabwysiadu dull newydd o gyflwyno prentisiaethau cyfrwng Cymraeg ar gyfer y blynyddoedd cynnar. Mae 40 o brentisiaethau newydd wedi dechrau gyda Mudiad Meithrin, ac mae yna botensial i greu partneriaethau pellach gyda darparwyr newydd.
- Rydym wedi rhoi cyllid i'r **Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol** i greu siaradwyr newydd. Cynhaliodd y Ganolfan 20,330 o weithgareddau ar gyfer 13,260 o ddysgwyr unigol yn 2018/19. Hefyd:
  - yn 2017-2018, roedd yna 12,680 o **ddysgwyr unigol** a 13,260 yn 2018-2019 – **cynnydd o 5%**.
  - yn 2018-2019, aeth dysgwyr i 20,330 o weithgareddau dysgu – **cynnydd o 4%** o gymharu â 2017-2018.

[3] Rydym yn gwneud newidiadau i'r rheoliadau mewn ymateb i Covid-19. Maent yn cynnwys cychwyn cylch CSCA newydd yn 2022 yn lle 2021. Byddwn yn ymestyn y cyfnod CSCA cyfredol i sicrhau na fydd yna gyfnod pan nad yw ALl o dan ddyletswydd statudol i gynllunio addysg Gymraeg.

Thema 2: Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg

- Rydym wedi cyhoeddi ein strategaeth newydd ar gyfer **defnydd mewnol o'r Gymraeg**, *Cymraeg. Mae'n perthyn i ni i gyd*. Credaf y bydd y strategaeth yn dylanwadu ar y defnydd a wneir o'r Gymraeg ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru, ac ymhellach o bosibl.
- Bellach, mae **safonau'r Gymraeg** yn berthnasol i fwy na 120 o sefydliadau. Lluniwyd safonau ar gyfer y sector iechyd yn 2018, gan osod dyletswyddau ar Fyrddau Iechyd i ddarparu gwasanaethau drwy'r Gymraeg a mabwysiadu cynlluniau i ddarparu mwy o ofal clinigol drwy'r Gymraeg. Rydym yn bwriadu cyflwyno safonau ar gyfer rheoleiddwyr gofal iechyd nesaf.
- Mae **Cymraeg Gwaith** yn cynnig hyfforddiant a chymorth i helpu gweithleoedd i gynyddu'r defnydd a wnânt bob dydd o'r iaith a gwella'r gwasanaethau y maent yn eu darparu. Yn ystod 2019-20, cofrestrodd dros 1,600 o gyflogwyr ar gyfer cyrsiau Cymraeg Gwaith.
- Rydym wedi cyllido prosiect **newid ymddygiad** i gynyddu'r defnydd a wneir o'r Gymraeg mewn gweithleoedd, a chaiff pecyn adnoddau ei greu y gall pawb ei ddefnyddio am ddim.
- Rydym yn rhoi grant i'r Urdd, prif sefydliad ieuenctid Cymru:
    - Mae ganddo dros 56,000 o aelodau.
    - Mae 10,000 o **wirfoddolwyr** yn gweithio gyda'r Urdd ledled Cymru.
    - Mae tua 45,500 o blant a phobl ifanc yn elwa ar **brofiadau preswyl** yn un o wersylloedd yr Urdd bob blwyddyn.
    - Yn 2019, ymwelodd 100,000 â'r **Eisteddfod** a chymerodd tua 80,000 ran mewn cystadlaethau.
    - Ym mis Rhagfyr 2019, cyhoeddwyd partneriaeth newydd rhwng yr Urdd a Llamau, a threfnwyd cinio Nadolig ar gyfer 250 o bobl ifanc yr oedd **digartrefedd** yn effeithio arnynt. Bydd y bartneriaeth yn cynnig profiadau i bobl ifanc a allai gynyddu eu hyder, gan roi cyfle iddynt ymchwilio ymhellach ac ehangu eu gorwelion.
    - Mae'r Urdd yn ceisio cyrraedd plant a phobl ifanc o bob cefndir ac o aelwydydd o bob incwm, ac felly wedi datblygu prosiect i gynnig lleoedd yn y gwersylloedd i **blant difreintiedig**: cynigiwyd 200 o leoedd hyd yma.
- Rydym yn rhoi grant i'r Eisteddfod Genedlaethol – mae'n darparu cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith, dathlu ein diwylliant a chymaint mwy:
    - Mae asesiadau effaith economaidd yn dangos bod **gwerth economaidd** positif o rhwng £17m a £18m i'r Eisteddfod bob blwyddyn yn yr ardaloedd y mae'n ymweld â nhw.
    - Yn 2019, gwariwyd £2,741,330 ar **fusnesau bach** sy'n gysylltiedig â'r Eisteddfod.
    - Yn 2019, **ymwelodd** dros 175,000 â Maes yr Eisteddfod yn ystod wythnos yr ŵyl.
    - Mae'r Eisteddfod yn **brosiect cymunedol dwy flynedd**. Ar gyfartaledd, cynhelir 250-350 o ddigwyddiadau cymunedol yn ystod y cyfnod hwn. Mae'r

rhain yn gyfleoedd i greu incwm lleol. Mae'r ŵyl hefyd yn blatfform i brofi syniadau busnes newydd, y mae llawer ohonynt yn parhau y tu hwnt i'r ŵyl.
    - Mae ein buddsoddiad yn yr Eisteddfod hefyd yn sicrhau platfform i **arddangos celf a llenyddiaeth newydd, ac i gefnogi perfformwyr newydd.** Mae hwn yn sector economaidd pwysig yng Nghymru, ac yn sgil y grant cymedrol hwn, mae'r Eisteddfod yn cefnogi a meithrin talent newydd yng Nghymru – artistiaid sydd weithiau yn tyfu i fod yn llysgenhadon sy'n hyrwyddo Cymru ledled y byd.
- Rydym yn rhoi grant i'r **Mentrau Iaith**. Yn 2019, darparodd y rhain 9,229 o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, ac aeth 231,366 i'r digwyddiadau hyn.
- Mae'r Mentrau Iaith yn cynnal **gwyliau cerddorol** er mwyn denu cynulleidfaoedd newydd a normaleiddio defnydd o'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth:
    - Rydym yn cyllido'n rhannol lawer o'r gwyliau mwy (denodd **Tafwyl** 38,000 o ymwelwyr yn 2019) sydd wedi dod yn rhan bwysig o'r calendr diwylliannol.
    - Yn 2019, darparwyd £50,000 gennym ar gyfer **gwyliau llai** a newydd hefyd er mwyn cyflwyno'r iaith a'r diwylliant i gynulleidfaoedd newydd. Rhannwyd y cyllid rhwng 11 o wyliau llai, er enghraifft Gŵyl Canol Dre Caerfyrddin a Gŵyl y Ferch ar Ynys Môn.
- Amcangyfrifir bod y 52 **papur bro**, a gyllidir gan Lywodraeth Cymru, yn cyhoeddi 43,000 rhifyn bob mis, a bod y rhan fwyaf o'r papurau yn cyhoeddi rhwng 500 a 1,000 o gopïau. A chymryd bod dau yn darllen pob papur, mae'r papurau'n cyrraedd 139,000 o ddarllenwyr.
- Mae **Dydd Miwsig Cymru** wedi ennill ei blwyf yn y calendr fel diwrnod i ddathlu holl gyffro'r byd cerddorol Cymraeg. Mae'n codi ymwybyddiaeth o'r iaith a'n diwylliant.

<u>Thema 3: Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun</u>

- Fel rhan o'n ***Cynllun Gweithredu Technoleg Gymraeg*** (a gyhoeddwyd yn 2018), rwyf wedi sicrhau bod Cysgliad (gwirydd sillafu Cymraeg, gwirydd gramadeg, a chyfres o eiriaduron) ar gael yn rhad ac am ddim i unigolion, ysgolion a sefydliadau sydd â llai na 10 aelod o staff. Hyd yma, mae wedi'i lawrlwytho 3,600 o weithiau.
- Mae **seilwaith ieithyddol** cryf (geiriaduron, terminoleg, adnoddau corpws, mecanweithiau safoni) yn hanfodol er mwyn ei gwneud yn haws i bawb ddefnyddio'r iaith – boed yn blant ysgol, yn bobl wrth eu gwaith neu'n siaradwyr newydd. Rydym yn datblygu polisi ar gyfer y maes gwaith hwn er mwyn ei gwneud yn haws i bawb gael mynediad at adnoddau ieithyddol. Byddaf mewn sefyllfa i wneud datganiad yn fuan.
- Mae'r garfan gyntaf wrthi ar hyn o bryd yn dilyn cwrs peilot ar ***Arwain mewn Gwlad Ddwyieithog*** a ddatblygwyd gennym ynghyd ag Academi Wales, gyda'r nod o wreiddio ysbryd *Cymraeg 2050* mwn sefydliadau ledled Cymru.

- Yn 2018, sefydlwyd **Grŵp Rhanddeiliaid Adnoddau Addysgol Dwyieithog** gennym i ystyried creu seilwaith cenedlaethol ar gyfer darparu adnoddau addysgol. Mae argymhellion y grŵp wedi'u cyflwyno i'r Gweinidog Addysg, a byddwn yn gwneud datganiad pellach ar y ffordd ymlaen yn fuan. Bydd adnoddau addysgol Cymraeg o ansawdd yn ganolog i'r seilwaith newydd a fydd yn cefnogi'r cwricwlwm newydd i Gymru.
- Rwyf wedi sefydlu **Bwrdd Crwn Economi ac Iaith** i ystyried yr heriau a'r cyfleoedd yng nghymunedau Cymraeg gwledig y Gorllewin.
- Roedd **Blwyddyn Ryngwladol Ieithoedd Cynhenid UNESCO** yn 2019 yn gyfle da i uno dwy elfen fy mhortffolio. Gall ein dwyieithrwydd yng Nghymru ein helpu i ddysgu oddi wrth wledydd eraill sy'n hyrwyddo ieithoedd lleiafrifol ac sy'n gweithredu mewn amgylcheddau amlieithog. Ar sail llwyddiant y flwyddyn, y bu Cymru'n chwarae rôl arweiniol ynddi, mae UNESCO wedi penderfynu sefydlu *Degawd Ieithoedd Cynhenid*, a fydd yn dechrau yn 2022. Rwy'n awyddus i Gymru gael ei gweld yn arweinydd yn hyn o beth ar lefel fyd-eang, ac yn genedl i droi ati wrth geisio diogelu a hyrwyddo ieithoedd ledled y byd.

Rydym yn ymfalchïo yn y cynnydd a wnaed hyd yma i gyrraedd miliwn o siaradwyr. Fodd bynnag, hyd yn oed cyn i Covid-19 daro, roedd rhai meysydd yn fwy heriol nag eraill yn hyn o beth. Un enghraifft yw'r angen i **gynyddu nifer yr athrawon** sy'n gallu addysgu drwy'r Gymraeg / addysgu Cymraeg fel pwnc yn gyflymach.

Enghraifft arall yw nifer y plant sy'n **mynychu addysg Gymraeg**. Rydym wedi gwneud cynnydd cyson ers 2017, ond mae mynd i'r afael â threfniadaeth ysgolion, ac yn benodol sefydlu ysgolion newydd, yn cymryd amser. Yn fuan, byddwn yn dechrau gweithio gydag awdurdodau lleol i drafod eu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg deg mlynedd er mwyn inni allu cymryd camau mwy breision yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae angen inni gydnabod y cymorth a'r gwaith gwych y mae rhai awdurdodau lleol wedi'i gyflawni, sy'n golygu bod gennym blatfform llawer cadarnach i adeiladu arno. Serch hynny, mae angen imi bwysleisio bod angen i rai awdurdodau lleol weithredu ar ymrwymiadau eu CSCA gydag argyhoeddiad.

Bydd **Cyfrifiad 2021** yn darparu data ar ein cynnydd tuag at dargedau *Cymraeg 2050*. Er mai'r Cyfrifiad yw'r ffynhonnell awdurdodol o ran nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru, ac mai dyna sail ystadegol ein huchelgais i gyrraedd miliwn o siaradwyr, rydym hefyd yn monitro tueddiadau'r **Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth.** Mae hwn wedi dangos cynnydd yn nifer y siaradwyr dros y ddegawd ddiwethaf. Fodd bynnag, mae'r ychydig chwarteri diwethaf wedi cofnodi cwymp bychan. Byddwn yn cadw llygad ar y patrymau hyn.

## 2. Effaith Covid-19, a'r ymateb iddo, ar y Gymraeg

Mae Covid-19 wedi creu nifer o heriau wrth weithredu *Cymraeg 2050* ac mae'r ffordd mae ein partneriaid wedi ymateb yn ystod y misoedd diwethaf wedi creu argraff arnaf. Rwy'n siŵr y daw llawer o'r gwaith newydd ac arloesol a wnaed yn rhan o'n ffordd newydd o weithio yn y dyfodol.

Ym mis Mawrth, yr heriau cychwynnol a oedd yn ein hwynebu yn y **tymor byr** oedd:

- Sicrhau cadernid ein sefydliadau partner iaith Gymraeg yn y tymor byr.
- Gofalu bod plant a oedd mewn addysg Gymraeg a'u rhieni / gofalwyr yn cael cefnogaeth a sicrwydd ynghylch sgiliau Cymraeg y plant (a) yn ystod y cyfnod clo a (b) wrth i ysgolion ailagor.
- Gwneud yn siŵr bod y trefniadau dysgu ar-lein newydd ar gyfer oedolion a oedd yn dysgu Cymraeg yn cael eu cefnogi.

Dyma rai enghreifftiau o'r gwaith rydym wedi'i wneud ynghyd â'n sefydliadau partner yn ystod y pandemig:

- Yn gynharach eleni, rhoddais y dasg i **Gyngor Partneriaeth y Gymraeg o sefydlu tri is-grŵp** i ystyried elfennau o *Cymraeg 2050* yn fanylach. Fel rhan o'u gwaith, maent yn ystyried effaith Covid-19 fel a ganlyn:
    - Bydd Is-grŵp 1: **Addysg** yn ystyried effaith bosibl y diffyg cyswllt mewn lleoliadau addysgol ar ddatblygiad ieithyddol / cymorth i rieni ar aelwydydd lle na siaredir Cymraeg / addysg drochi.
    - Mae Is-grŵp 2: **Cynyddu Defnydd o'r Gymraeg yn Gymunedol** wedi comisiynu awdit cymunedol o'r defnydd o'r Gymraeg er mwyn gweld pa gyfleoedd sy'n bodoli ar hyn o bryd, beth yw'r bylchau, a sut mae'r pandemig wedi effeithio arnynt.
    - Bydd Is-grŵp 3: **Economi ac Iaith** yn canolbwyntio ar brif-ffrydio'r Gymraeg mewn rhaglenni economaidd, a sicrhau gwell dealltwriaeth o sut y gallai gwahanol ymyriadau economaidd effeithio ar ffyniant y Gymraeg.
- Rydym wedi rhoi dros £3.1m i'r **Urdd** i'w chefnogi i oroesi effeithiau'r pandemig, a hithau'n methu â chreu incwm drwy ei chanolfannau preswyl. Mae'r ymyrraeth hon gan y Llywodraeth wedi golygu gallu cefnogi 180 o swyddi. Fodd bynnag, gydag ansicrwydd yn parhau o ran pa mor hir y bydd Covid-19 yn effeithio ar weithgareddau'r Urdd yn y dyfodol (ailagor canolfannau preswyl yn llawn / cyfyngu ar faint o weithgareddau cymunedol wyneb yn wyneb a gynhelir / cynnal digwyddiadau cenedlaethol fel yr Eisteddfod a gweithgareddau chwaraeon) mae'n amlwg bellach bod diswyddiadau'n anochel ac y bydd yr Urdd yn wynebu heriau sylweddol yn yr hirdymor. Er gwaethaf yr holl ansicrwydd, mae'r Urdd wedi parhau i gyflawni ac arloesi mewn amgylchiadau eithriadol o anodd. Er enghraifft:
    - Rhannodd ei **Neges Heddwch ac Ewyllys Da** flynyddol yn ddigidol. Cyrhaeddodd y neges 37 miliwn o bobl.

  - Cynhaliodd **Eisteddfod T** yn lle'r Eisteddfod maes arferol. Cymerodd dros 6,000 ran mewn gwahanol gystadlaethau. Roedd llawer o'r rhain yn cymryd rhan am y tro cyntaf erioed. Bydd yna wersi i'w dysgu o'r fenter hon i'w cymhwyso i Eisteddfodau'r dyfodol yn sicr.
  - Yn ddiweddar, mae wedi lansio menter gyffrous o'r enw *Cefn Llwyfan*, sef **rhaglen fentora** i bobl ifanc sydd am gael swyddi ym maes y celfyddydau perfformio. Mae'r fenter yn canolbwyntio'n benodol ar ddatblygu dysgwyr ifanc anabl a dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig nad ydynt efallai yn gallu manteisio, fel rheol, ar gymorth o'r fath.
- Dyrannwyd £0.5m gennym i'r **Eisteddfod Genedlaethol** i helpu gyda'r costau a ddeilliodd o ohirio Eisteddfod Tregaron. Arweiniodd gohirio'r Eisteddfod at greu **Eisteddfod AmGen** lwyddiannus dros ben. Denodd y digwyddiad dros 4 miliwn o argraffiadau ar Facebook, Twitter ac Youtube a bu dros filiwn yn gwylio.
- Mae'r **Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol** wedi addasu'n gyflym er gwaethaf y ffaith bod yr holl ddysgu wyneb yn wyneb wedi dod i ben:
  - Mae dros 1,300 o **ddysgwyr newydd** yn dilyn cyrsiau mewn 89 o ddosbarthiadau rhithiol bellach.
  - Ers 16 Mawrth, mae 8,000 o unigolion wedi cofrestru ar gyfer dros 17,000 o **gyrsiau blasu ar-lein** y Ganolfan. Mae'r ffigurau hyn yn uwch na ffigurau'r tair blynedd blaenorol gyda'i gilydd, ac yn dangos bod y diddordeb yn tyfu'n gyflym.
  - Mae'r Ganolfan wedi lansio gwersi wythnosol ar Facebook mewn partneriaeth â **Cymraeg i Blant**, sy'n targedu rhieni / gofalwyr plant bach yn benodol.
- Mae'r **Ffederasiwn Ffermwyr Ifanc** a **Merched y Wawr** wedi bod yn cefnogi pobl sy'n agored i niwed yn eu cymunedau drwy gynnig cymorth ymarferol, dosbarthu prydau bwyd a chynnal llinell gymorth o'r enw "Ffoniwch Ffrind".
- **Tafwyl** yw dathliad blynyddol Caerdydd o gelfyddyd a diwylliant Cymru. Eleni, cynhaliwyd yr ŵyl ar-lein ac fe'i gwyliwyd gan gynulleidfa fyd-eang o fwy nag 8,000, gan gynnwys pobl o'r Unol Daleithiau, Japan, yr Iseldiroedd, Sbaen a Ffrainc, i enwi ond ychydig.
- Mewn partneriaeth â Chanolfan Bedwyr, rwyf wedi sicrhau bod **Cysgliad** ar gael bellach yn rhad ac am ddim i unigolion, ysgolion a sefydliadau sydd â llai na 10 aelod o staff.
- Gohiriwyd lansiad swyddogol **Helo Blod**, gan ganolbwyntio yn hytrach ar sicrhau bod y gwasanaeth ar gael ar-lein i helpu'r sectorau gwirfoddol a busnes i ddarparu gwasanaethau drwy'r Gymraeg.

Rydym nawr am ystyried **effeithiau tymor canolig i dymor hir** posibl y pandemig:

<u>Thema 1: Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg</u>

Bydd ein polisi newydd ar **drosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd**, a gaiff ei lansio cyn y Nadolig, yn rhan bwysig o'r gwaith hwn.

Yn genedlaethol, roedd y cyfnod clo yn gyfle i ystyried **addysg Gymraeg**, ac fe'n hatgoffwyd o rôl rhieni'n cefnogi addysg ein plant. Daeth yr angen am becyn cymorth i'r amlwg – pecyn wedi'i deilwra i rieni plant sydd mewn addysg Gymraeg ond nad ydyn nhw eu hunain yn siarad Cymraeg. Rydym wedi cychwyn ymgyrch i gynnig cefnogaeth i rieni drwy gyfathrebu'n rheolaidd â nhw ynghylch dwyieithrwydd. Ein hymgyrch 'Llond haf o Gymraeg' ddechreuodd y broses hon.

O ran ein hymdrechion i **ehangu mynediad at addysg Gymraeg**, rydym wrthi'n datblygu amserlenni newydd er mwyn rhoi cyfle i awdurdodau lleol ymateb i'r pandemig a gweithredu'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ar yr un pryd. Mae'r amserlen ddiwygiedig hon yn debygol o gael rhywfaint o effaith yn y tymor byr ar ein targedau mewn perthynas â chynyddu addysg Gymraeg. Fodd bynnag, o ystyried natur hirdymor y broses gynllunio, credwn y bydd modd inni wneud iawn am hyn.

Thema 2: Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg

Mae'r pandemig wedi effeithio ar sut a phryd rydym yn cyfathrebu ag eraill. Bydd y cyfleoedd a arferai fod gennym i gyfathrebu drwy'r Gymraeg wedi newid yn ddramatig mewn rhai achosion:

(i) Gweithleoedd

Bydd patrymau gweithio mwy hyblyg a defnydd newydd o dechnoleg yn parhau yn y tymor hir – mae'n bosibl bod rhai gweithleoedd wedi newid am byth. Mae hyn yn codi cwestiynau mewn perthynas â defnydd iaith ffurfiol ac anffurfiol yn y gweithle.

Rhaid ei gwneud yn haws i ddefnyddio cyfleusterau cyfieithu ar y pryd dynol yn y gofod rhithiol. Rhaid hefyd creu cyfleoedd i gydweithwyr yn yr un lleoliad allu defnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd yn ystod y diwrnod gwaith, e.e. bydd sgyrsiau anffurfiol wrth wneud paned yn bwysig. Rydym mewn trafodaethau cadarnhaol gyda Microsoft ynghylch y cwestiwn cyfieithu ar y pryd.

Ar y llaw arall, mae tystiolaeth gynnar yn dangos bod y nifer sy'n dysgu Cymraeg ar-lein wedi cynyddu'n sylweddol. Mae'r pandemig wedi creu cyfleoedd a fydd yn ei gwneud yn haws cynnal gwersi mewn gweithleoedd rhithiol ac i weithwyr ddysgu mewn ffordd lawer mwy hyblyg.

(ii) Defnyddio'r Gymraeg ar lefel gymunedol

Mae iaith yn ffenomen gymdeithasol sy'n galw am gymuned neu rwydwaith o siaradwyr. Mae technoleg yn ei gwneud yn bosibl datblygu rhwydweithiau rhithiol newydd, ond mae cynnal cymunedau Cymraeg ffyniannus yn y Gorllewin a'r Gogledd-orllewin yn parhau'n allweddol er mwyn creu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith.

Mae Is-grŵp Cynyddu Defnydd o'r Gymraeg yn Gymunedol wedi comisiynu awdit o effaith y cyfyngiadau a gyflwynwyd yn sgil Covid-19 ar ddefnydd o'r Gymraeg yn y

gymuned. Byddwn yn gweithio gyda'r is-grŵp i lunio polisïau sy'n ceisio diogelu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ar lefel gymunedol yn y dyfodol.

Mae rhai o'n partneriaid grant allanol yn parhau i wynebu dyfodol ansicr. Byddwn yn parhau i weithio gyda nhw i sicrhau eu hyfywedd i'r dyfodol.

(iii) Gwasanaethau

Mae'r pandemig wedi arwain at ailddyrannu adnoddau cyfreithiol o fewn Llywodraeth Cymru. Am y tro, dim ond os daw adnoddau cyfreithiol ar gael y gellir paratoi safonau o ran y Gymraeg. Os daw'r adnoddau hynny ar gael, byddwn yn blaenoriaethu'r safonau ar gyfer Rheoleiddwyr Gofal Iechyd.

O ran ein cynlluniau i'w gwneud yn haws i'r sectorau gwirfoddol a busnes ddefnyddio mwy o'r Gymraeg, mae ein gwasanaeth **Helo Blod** wedi bod ar gael ers mis Mawrth eleni. Dyma ein Siop Un Stop ar gyfer y Gymraeg, ac mae eisoes yn gwneud gwahaniaeth i'r sectorau hyn.

Thema 3: Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun

(i) Ail gartrefi

Mae ail gartrefi a'r materion cysylltiedig yn gwestiynau emosiynol, ac mae iddynt hanes hir a chymhleth. Yn aml, mae'r cymunedau dan sylw yn ffynnu, diolch i'r economi ymwelwyr, ond mae'n rhaid inni barhau i gwestiynu p'un a ydym wedi taro'r cydbwysedd iawn rhwng yr economi a'r gymuned. Mae angen swyddi er mwyn cael cymuned ffyniannus, ac mae angen cartrefi ar ei phobl – mae angen seilwaith cynaliadwy arni ac ymdeimlad o hunaniaeth yr ardal. I sicrhau hyn, rhaid cydbwyso nifer y cartrefi parhaol a'r rheini a ddefnyddir am ran o'r flwyddyn yn unig neu a osodir fel busnesau. Mae'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol wedi gwahodd Aelodau o'r Senedd sydd â diddordeb i ystyried y materion hyn yn fanwl gyda hi.

(ii) Yr economi

Bydd sicrhau hyfywedd economaidd cymunedau sydd â chanrannau uwch o siaradwyr Cymraeg yn her gynyddol yn sgil Covid-19 a Brexit. Mae'n debygol y bydd yr economi wedi crebachu'n sylweddol yn ystod y cyfnod hwn, ac y bydd yr effeithiau'n fwy amlwg mewn cymunedau gwledig oherwydd eu dibyniaeth ar y sectorau amaeth, twristiaeth, diwylliant a bwyd a diod. Rhagwelir pwysau sylweddol ar y gwasanaethau cyhoeddus hefyd – sector pwysig arall i'r economi wledig. Fel rhan o'r ymateb i'r pandemig, bydd yn bwysig deall sut mae ymyriadau rhaglen Arfor wedi cefnogi'r economi leol ac wedi bod o fudd i'r Gymraeg hefyd. Mae'n hollbwysig ein bod yn dysgu gwersi ac yn edrych ar ffyrdd o weithredu'r ymyriadau economaidd arloesol hyn o fewn rhaglenni prif ffrwd. Bydd hyn yn rhan o waith yr Is-grŵp Economi ac Iaith.

(iii) Technoleg

Rydym newydd ddyfarnu grant newydd i Ganolfan Bedwyr (Canolfan Gwasanaethau, Technoleg ac Ymchwil Cymraeg Prifysgol Bangor) a fydd yn gweithredu llawer o becynnau gwaith ein *Cynllun Gweithredu Technoleg Gymraeg.* Bydd y cydrannau newydd a gaiff eu creu ar gael drwy drwydded agored, sy’n golygu y bydd rhwydd hynt i eraill eu defnyddio yn eu cynnyrch a’u gwasanaethau. Byddaf yn cyflwyno adroddiad llawn ichi yn fuan ar ein *Cynllun Gweithredu Technoleg Gymraeg* at ddibenion yr ymchwiliad sydd ar y gweill gennych i dechnoleg Gymraeg.

## 3. Cyllid ar gyfer y Gymraeg

Cyn Covid-19

Mae'r dyraniadau cyllidebol ar gyfer y Gymraeg yn cefnogi'r gweithgareddau a'r blaenoriaethau a amlinellir yn *Cymraeg 2050*. Cyflawnir y blaenoriaethau ar gyfer datblygu'r Gymraeg o fewn y gymuned, yn y gweithle ac ym myd addysg drwy'r Brif Grŵp Gwariant (MEG) Addysg a MEG y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol, a chânt eu cefnogi gan Is-adran y Gymraeg. Roedd y Gyllideb Derfynol ar gyfer 2020-21, fel y'i hadlewyrchir yn y tabl isod, yn cynnwys cyfanswm cyllideb o £37.216m ar gyfer y Gymraeg: cyllideb refeniw o £36.831m a chyllideb gyfalaf o £0.385m (a ddyrannwyd i Gomisiynydd y Gymraeg i foderneiddio'r systemau TG).

Mewn ymateb i Covid-19 a'r ymateb brys a oedd yn ofynnol yn wyneb y sefyllfa iechyd cyhoeddus, aethpwyd ati ar unwaith i ailsianelu cyllidebau ar draws Llywodraeth Cymru. Mae difrifoldeb y sefyllfa bresennol yn golygu ein bod wedi gorfod gwneud penderfyniadau anodd i sicrhau y gallwn gefnogi'r bobl sydd fwyaf agored i effeithiau Covid-19. Mae'r cyllidebau wedi targedu gwasanaethau rheng flaen y GIG yn bennaf, ac wedi canolbwyntio ar gefnogi sefydliadau sydd wedi bod dan bwysau yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Wrth asesu'r hyn a gyflawnir o ran y Gymraeg, a'r gallu i gefnogi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, cynhaliwyd adolygiad manwl gennym o'r cyllidebau ar sail y meini prawf canlynol:

- Yr hyn nad oedd modd ei wneud yn sgil y pandemig (e.e. costau teithio allanol a rhywfaint o gyllid yn ymwneud â gweithgareddau i hyrwyddo'r Gymraeg yn y gymuned).
- Yr hyn yr oedd modd ei ohirio (e.e. lansio Helo Blod yn ffurfiol ac adolygu Grantiau Hyrwyddo'r Gymraeg).
- Yr hyn y gellir ei wneud yn wahanol (mae hyn yn arbennig o berthnasol i weithgareddau yn y gymuned, neu'r rheini sy'n ymwneud â dysgu, e.e. cafodd cyrsiau a gaiff eu rhedeg gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol eu symud ar-lein yn llwyddiannus yn ogystal â rhaglen *Arwain mewn Gwlad Ddwyieithog* drwy Academi Wales).

Drwy weithio fel hyn, credwn ein bod wedi cadw'r effeithiau negyddol i'r lefel isaf bosibl, a'n bod wedi gwneud ein gorau glas i sicrhau ein bod yn parhau i gyflawni ein hymrwymiadau o ran *Cymraeg 2050*. Yn wir, rydym wedi gweld llawer o bethau cadarnhaol yn ystod y cyfnod hwn, er enghraifft: achosion newydd o arloesi, defnydd eithriadol o dechnoleg ddigidol a charfan ychwanegol o ddysgwyr yn mynychu gwersi rhithiol. Byddwn yn dysgu o'r profiadau hyn ac adeiladu arnynt wrth gynllunio at y dyfodol.

Rydym wedi llwyddo i ail flaenoriaethu cyllidebau o fewn y dyraniad diwygiedig. Er enghraifft, fel y nodwyd uchod, neilltuwyd £0.5m ychwanegol ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol mewn ymateb i'r diffyg incwm yn sgil canslo Eisteddfod Tregaron 2020. Daw £0.1m o'r swm hwn o Linell Wariant (BEL) y Gymraeg a throsglwyddwyd £0.4m fel swm untro o'r gyllideb Digwyddiadau Cymru o fewn MEG y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol.

Ar y cyfan, mae gostyngiad o 4% yng nghyllideb y Gymraeg o £37.216m i £35.671m. Crynhoir y newidiadau cyllidebol yn y tabl canlynol:

| Prif Grŵp Gwariant (MEG) | Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL) | Cyllideb Derfynol 2020-21 £m | Cyfraniad at Covid-19 2020-21 £m | Trosglwyddo o fewn y Prif Grŵp Gwariant (MEG) £m | Cyllideb Atodol Gyntaf 2020-21 £m |
|---|---|---|---|---|---|
| **REFENIW** | | | | | |
| Addysg | Addysg Gymraeg (BEL 5164) | 12.675 | (0.350) | 0.000 | 12.325 |
| Y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol | Y Gymraeg (BEL 6020) | 20.949 | (1.595) | 0.400 | 19.754 |
| Y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol | Comisiynydd y Gymraeg (BEL 6021) | 3.207 | 0.000 | 0.000 | 3.207 |
| **Cyfanswm Refeniw** | | **36.831** | **(1.945)** | **0.400** | **35.286** |
| **CYFALAF** | | | | | |
| Y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol | Comisiynydd y Gymraeg (BEL 6021) | 0.385 | 0.000 | 0.000 | 0.385 |
| **Cyfanswm Cyfalaf** | | **0.385** | **0.000** | **0.000** | **0.385** |
| **Cyfanswm y Gyllideb** | | **37.216** | **(1.945)** | **0.400** | **35.671** |

<u>Dyraniadau cyllideb 2021-22</u>

Ar hyn o bryd, dim ond ar gyfer un flwyddyn (2020-21) y mae gennym gyllideb refeniw a chyfalaf, sef y cyfnod y mae gennym setliad cyllid ar ei gyfer gan Lywodraeth y DU. Daw'r goblygiadau cyllid i Lywodraeth Cymru y tu hwnt i 2020-21 yn hysbys yn dilyn Adolygiad Cynhwysfawr y DU o Wariant y disgwylir iddo gael ei gynnal yn yr hydref. Bydd proses cynllunio cyllideb Llywodraeth Cymru wedyn yn

pennu’r dyraniadau ar lefel y Prif Grwpiau Gwariant (MEG) ar gyfer y blynyddoedd nesaf.

Unwaith daw’r sefyllfa ariannol yn hysbys, byddaf yn mynd ati gyda fy swyddogion polisi i gynllunio ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf a thu hwnt i hynny. Bydd yn bwysig cofio bod unrhyw gytundeb i gyllido y tu hwnt i 2020-21 yn gosod ymrwymiad ar y Llywodraeth nesaf. Bydd angen cadw cydbwysedd, felly, rhwng gweithredu’n flaengar i gefnogi amcanion *Cymraeg 2050* a gofalu na chyfyngir ar y posibiliadau i unrhyw Lywodraeth newydd a fydd am gyflwyno ei hamcanion a’i syniadau arloesol ei hun er mwyn cyrraedd y targedau.

Yn y cyfnod ansicr hwn, mae’r hyn a gyflawnwyd ac a nodwyd uchod yn destun balchder imi. Er bod y pandemig wedi dod â heriau newydd, mae wedi creu llawer o gyfleoedd newydd cyffrous hefyd. Credaf fod gennym blatfform cadarn i adeiladu arno ac i barhau â thaith *Cymraeg 2050*.

**Eluned Morgan AS**
**Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol**

LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU
THE NATIONAL LIBRARY OF WALES



Aberystwyth SY23 3BU | 01970 632800 | gofyn@llyfrgell.cymru | www.llyfrgell.cymru

30 Medi 2020

Annwyl Aelod

**Adolygiad Teilwredig a thangyllido'r Llyfrgell**

Yn gynharach heddiw fe gyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddatganiad ar y cyd gyda'r Llyfrgell Genedlaethol yn ymwneud â'r Adolygiad Teilwredig a wnaed yn ddiweddar ar y Llyfrgell.

Mae'r Llyfrgell yn croesawu prif argymhelliad yr Adolygiad, sy'n galw ar Lywodraeth Cymru i roi sylw brys i anghenion ariannol presennol y Llyfrgell.

Mae'r sefyllfa ariannol bresennol yn ddifrifol, ac os anwybyddir argymhellion yr Adolygiad fe fydd yr argyfwng presennol yn arwain at weithredu nifer o fesurau niweidiol i fantoli'r gyllideb yn y tymor hir. Gall hyn olygu lleihau ein gweithlu a diswyddo hyd at 30 o aelodau o staff. Byddai oblygiadau hyn i'r Llyfrgell, Aberystwyth a Cheredigion yn un ddifrifol a niweidiol.

Heb os, canlyniad tangyllido systemig Llywodraeth Cymru dros nifer o flynyddoedd sy'n gyfrifol am y sefyllfa bresennol, ac y mae'r Adolygiad Teilwredig yn mynegi pryder mawr ynghylch dyfodol y Llyfrgell Genedlaethol gan nodi'n glir iawn nad yw'r sefyllfa bresennol yn gynaliadwy. Mae'r Llyfrgell wedi profi gostyngiad o 40% yn ei grant cynnal: nid yw hynny'n wir am sefydliadau cenedlaethol eraill.

Mae pandemig Covid-19 wedi gwaethygu sefyllfa ariannol y Llyfrgell Genedlaethol. Bydd ein grant cymorth yn cael ei dorri o £200K eleni, ac fe allwn fod yn dioddef toriadau pellach yn ystod y flwyddyn. Mae'r Llyfrgell Genedlaethol yn llawn sylweddoli'r heriau ariannol sy'n wynebu Llywodraeth Cymru o ganlyniad i'r pandemig, fodd bynnag roedd y Llywodraeth yn ymwybodol iawn o sefyllfa ariannol beryglus y Llyfrgell Genedlaethol cyn i'r pandemig ymddangos.

Mae'r Llyfrgell angen £1.445M ychwanegol yn ei llinell refeniw Cymorth Grant ar gyfer 2021/22 ac adfer y grant cynnal a chadw'r a ddiflannodd yn llwyr o'n cyllideb yn 2016-17 ac sydd ei angen i gynnal a chadw'r adeilad a sicrhau iechyd a diogelwch ein staff a'n darllenwyr.

---

Dear Member

**Tailored Review and underfunding by Welsh Government**

Earlier today the Welsh Government issued a joint statement with the National Library of Wales in relation to a Tailored Review on the Library which has been completed recently.

The National Library has welcomed the main recommendation of the Review which asks the Welsh Government to give urgent attention to the Library's current financial needs.



Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government


The Library is in a very precarious financial position, and if the recommendations of this review are ignored the current crisis will lead to the implementation of a number of damaging measures to balance the budget in the long term, including the real possibility of having to reduce our workforce by up to 30 members of staff. The implications of having to take such drastic measure would have a devastating effect on the Library, Aberystwyth and Ceredigion.

Without doubt, the Library's current financial position is the result of systematic historic underfunding by Welsh Government, and the Tailored Review sees the current unsustainable position the Library finds itself in as a real threat to the future of the organisation. The Library has seen a 40% reduction in its Grant in Aid: this is not the case as regards to other national organisations.

The Covid-19 pandemic has worsoned the National Library's financial situation. This year's Grant in Aid has already been cut by £200k, and we may well have to endure firther cuts during the year. The Library fully realises the financial challenges facing Welsh Government as a result of the pandemic, however the Government was very much aware of our perilous finacial position before the pandemic appeared.

The Library needs an additional £1.445M in its Grant in Aid baseline for 2021-22 and the reinstating of the capital grant it last received in 2016-17, which it desperatly needs for maintaining the building and for securing the health and safety of our staff and readers.

Yn gywir iawn




**Pedr ap Llwyd**
**Prif Weithredwr a Llyfrgellydd/**
**Chief Executive and Librarian**